

Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

Tystiolaeth gan Grwp Deddf

Ymateb Grŵp Deddf (Swyddogion Iaith De-ddwyrain Cymru) i'r Cynllun Gwasanaethau Dwyieithog Drafft a Phapur Ymgynghori (Awst 2011) Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a Phapur Ymgynghori

Aelodau o'r Grŵp sy wedi cymeradwyo'r ymateb: (Cynghorau Sir) Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Blaenau Gwent, Abertawe Swyddfa Archwilio Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Cymraeg i Oedolion Coleg Gwent

Sylwadau'r Grŵp

Wrth reswm, mae croeso cyffredinol i'r cynllun o du Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer cynnig gwasanaethau dwyieithog.

Heb amheuaeth, a chithau'n brif sefydliad democrataidd Cymru (ac yn hynny o beth Llywodraeth Cymru yn ogystal) mae awdurdodau cyhoeddus yn tueddu edrych ar y Cynulliad Cenedlaethol am arferion da a gosod esiamplau o ran darpariaeth yn y Gymraeg gan osod cyseiliau o fewn ein cyfundrefnau. Mae hyn yn arbennig o wir yn y de-ddwyrain ble nad yw'r iaith o anghenraid yn cael ei hystyried yn rhan naturiol o fywyd a gwasanaeth bob dydd. Felly, dylai'r cynllun hwn fod yn gadarn ac yn gryf a'r enghraifft orau o'i fath. Er ein bod ni'n ymwybodol o'r gwahaniaeth sylfaenol rhwng y cynllun yma a'r ddeddf sy'n ei ganiatáu a chylch gorchwyl y Mesur Iaith, sut yn y byd y bydd hi'n bosibl i'r Comisiynydd Iaith newydd osod y bar yn uchel fel petai o ran safonau'r Gymraeg o dan y Mesur Iaith os ydy'r cynllun dan sylw yn dangos gwendidau. I'r llygwr, un endyd ydy "Bae Caerdydd".

Yn sicr pan fo pynciau yn codi yn y cyfryngau a dadleuon am beidio paratoi gwasanaethau yn y Gymraeg neu dorri nôl ar y gwasanaethau hynny naill ai o safbwynt y Cynulliad neu'r Llywodraeth, mae rhaid hefyd i gyrff cyhoeddus ymdopi â sgîl effeithiau o ran cydymffurfiaeth a chynlluniau iaith, herio hawliau ac yn y blaen.

Cwestiwn cyffredinol sy'n codi yw "oni ddylai cynllun gwasanaethau dwyieithog fod yn gyson rhwng Cynulliad Cymru a Llywodraeth Cymru fel sefydliadau democrataidd o fri Cymru?" Ac i'r ddau fod yn wirioneddol ddwyieithog o gofio eu cydnabyddiaeth. Mae cyrff cyhoeddus, yn arbennig y

swyddogion iaith, yn edrych tuag at y sefydliadau hyn i arwain ac arloesi yn y maes. Ble mae mannau gwan, ac wrth iddyn nhw gael eu hamlygu yn y cyfryngau, mae'n creu lletchwithdod yn y maes.

Byddai'r cysondeb o ran Cynlluniau Iaith cyrff cyhoeddus yn fuddiol dros ben gan fod cymaint o amrywio yn y maes o awdurdod i awdurdod.

Yn benodol:

Tudalen 5

Rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog a'u hyrwyddo

“sicrhau y gellir cynnig ein holl wasanaethau cyhoeddus, i'r gorau o'n gallu, yn ddwyieithog”

Awgrymwn hepgor y geiriau “i'r gorau o'n gallu” – i dynhau'r ac ymroi tuag at y broses o greu cyhoeddusrwydd dwyieithog.

Tudalen 7

Dylai'r Cynulliad bwysu ar y sefydliadau allanol sydd â chynlluniau iaith i baratoi'u dogfennau / ymatebion yn ddwyieithog wrth eu defnyddio'n rhan o ymgynghoriadau pwyllgor. Bydd hyn yn arfer da a gosod esiampl o ran y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel rhan o fyd busnes a thrafodaethau'r Cynulliad o gofio aelodaeth y Cynulliad.

Tudalen 8

“Bydd dogfennau ategol ar gyfer pwyllgorau a'r Cyfarfod Llawn fel papurau briffio ymchwil ...” Byddai'n braf cael enghraifft fel cysail o beth sy'n rhesymol ymarferol.

Tudalen 9

Y Cofnod yn y Siambr

Dylai hyn fod yn y Gymraeg heb amheuaeth.

Tudalen 9

“Byddwn yn ceisio anfon gohebiaeth ysgrifenedig at Aelodau unigol, grwpiau plaid ... yn ddwyieithog ...”

Awgrymwn hepgor y gair ceisio, a disodli gyda “bydd” yn ymrwymiad o fwriad cadarnhaol

Tudalen 10

Ein Delwedd Gyhoeddus

Byddwn yn ceisio cyflenwi ein holl waith hysbysebu, cyhoeddusrwydd ac ymgyrchu ... yn ddwyieithog ...”

Eto, awgrymwn hepgor y gair ceisio, a disodli gyda “bydd” yn ymrwymiad o fwriad cadarnhaol

Tudalen 11

“Pan fyddwn yn dechrau cyfathrebu unigolyn, grŵp neu sefydliad ... os bydd angen cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân” mae angen enghraifft yma (sef maint y ddogfen, e.e. dros hyn a hyn o eiriau / yn dechnegol cymhleth ayyb)

Tudalen 12

Pwynt bwled rhif 1 - “dogfennau ... pan fyddant ar gael” - mae angen eglurhad yma (dibynnu o ble mae dogfennau yn deillio, hwyrach sefydliadau sydd ddim â Chynllun Iaith?)

Tudalen 12

Cyfathrebu dros y ffôn

Pwynt bwled rhif 4 - byddai'n well o lawer i sicrhau bod staff y llinellau uniongyrchol yn ddwyieithog wrth benodi.

Tudalen 14

Ymwelwyr i ystâd y Cynulliad Cenedlaethol

(Para 1 Hepgor Bwrdd yr Iaith Gymraeg gan na fydd yn bodoli)

Para 3

“Byddwn yn parhau i gynnig teithiau munud olaf o'r Senedd yn Gymraeg *hyd orau ein gallu.*”

Mae hyn yn fater o recriwtio digon o dywysyddion dwyieithog (Cymraeg yn hanfodol i wneud y swydd), felly dylai'r gwasanaeth fod ar gael ar bob adeg.

Tudalen 16

“Yn yr achosion hyn o fewn cyfnod rhesymol ...” Oes modd pennu *cyfnod rhesymol* .

“Os na ellir canfod unrhyw ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer y swydd”

Byddai'n gall rhoi cam arall i mewn sef ail-hysbysebu'r swydd Cymraeg yn hanfodol ar ôl gyfnod o baratoi gwasanaethau dwyieithog dros dro er mwyn ceisio denu ymgeiswyr eraill.

Awgrym dynnu'r paragraff olaf ar dudalen 16 sef “Os na ellir canfod unrhyw ymgeiswyr addas ... i gyflenwi rhannau o'r gwasanaeth”

Hefyd beth yw ystyr *dros dro* yn y cyd-destun hwn?

O ran monitro, mae rhaid sicrhau bod sefydliad hyd braich ac annibynnol yn monitro cydymffurfiaeth.

O ran y Bil (Drafft) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) a Phapur Ymgynghori

Awgrymwn newid tebyg i 2 (6) fel a ganlyn i sicrhau Cofnod dwyieithog.
Nothing in section 35(1) or in sub-paragraphs (3) or (5) of this paragraph is to be interpreted as requiring all words spoken or written in one of the official languages to be interpreted or translated into the other, other than for the official Record of Proceedings